student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

DSA1

Gallwch hefyd ymgeisio ar-lein ar:
www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk

Cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) **2017/18**

Eich enw(au) cyntaf

Eich cyfenw

Os ydych wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr o'r blaen, rhowch eich Cyfeirnod Cwsmer

Cyfarwyddiadau

- I gael y ffurflen hon mewn fformat gwahanol megis Braille, print mawr neu sain e-bostiwch: **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffoniwch **0141 243 3686**.
- **Atebwch bob cwestiwn**. Os byddwch yn gadael unrhyw gwestiwn yn wag ni fyddwn yn gallu prosesu eich cais. Os na fydd cwestiwn yn berthnasol i chi, rhowch 'Dim' neu 'Amh.' fel yr ateb.
- Trowch at nodiadau DSA1 bob tro y byddwch yn gweld yr eicon hwn. n
- Pan fyddwch yn gweld yr eicon tystiolaeth, bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'ch cais. Bydd gwybodaeth am y dystiolaeth ofynnol ar gael yn y nodiadau DSA1 a bydd wedi ei nodi gyda'r eicon hwn. t
- Llofnodwch a dyddiwch y datganiad.
- Dychwelwch eich ffurflen at: Cyllid Myfyrwyr Cymru
  Blwch Post 211
  Cyffordd Llandudno
  LL30 9FU
- Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ffoniwch Ganolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0300 200 4050**.

adran

1 manylion personol

Manylion personol

a Teitl ☐ Mr ☐ Mrs ☐ Miss ☐ Ms

Enw(au) blaen

Cyfenw

Rhyw Gwryw ☐ Benyw ☐ Dyddiad geni DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐

Atebwch y cwestiynau hyn gan nodi'r union wybodaeth sy'n ymddangos ar eich tystysgrif geni neu'ch pasbort.

Man geni (tref/pentref)

Dinasyddiaeth

Manylion tystiolaeth o'ch hunaniaeth

b1 Oes gennych chi basbort y DU?

Oes ☐

Nac oes ☐ Os 'Nac oes' **ewch i b3**

b2 Rhowch y manylion canlynol o'ch **pasbort y DU**, y bydd yn rhaid iddo fod **yn ddilys ar hyn o bryd a heb ddod i ben** (dyma'r ffordd hawsaf i chi wirio eich hunaniaeth a bydd yn golygu **nad oes raid i chi anfon eich pasbort atom). Os nad yw'ch pasbort yn ddilys neu os yw wedi dod i ben, ewch i b3**

Rhif pasbort

Enw(au) blaen

Cyfenw

Dyddiad cyhoeddi / /

Dyddiad dod i ben / /

b3 Anfonwch eich **pasbort heb fod yn un y DU** neu **Drwydded Preswylio Biometrig**;
neu
Anfonwch eich **tystysgrif geni neu fabwysiadu'r DU** a ffurflen Geni/Mabwysiadu wedi'i chwblhau. t n

Benthyciadau blaenorol

c Ydych chi erioed wedi cael unrhyw fenthyciadau eraill gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC)? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐ os 'Nac ydw' **ewch i d**

Os 'Ydw', ydych chi yn hwyr gyda'r n ad-daliadau? **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

Manylion cyswllt

d Rhowch gyfeiriad eich cartref presennol. Os ydych yn ei wybod, nodwch eich cyfeiriad ar gyfer anfon gohebiaeth atoch yn ystod y tymor. n

Cyfeiriad cartref

Cyfeiriad yn ystod y tymor

Cod Post

Cod Post

Rhif ffôn cartref

Y dyddiad pan fyddwch yn symud i'ch cyfeiriad yn ystod y tymor
DYDD MIS BLWYDDYN

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

d1 A symudoch i Gymru yn gyfan gwbl neu'n rhannol i'r diben o dderbyn Addysg Uwch? **Ie** ☐ **Na** ☐ Os 'Ie' cysylltwch â Chyllid Myfyrwyr Cymru

Lluoedd Arfog

e1 A ydych chi'n aelod o'r Lluoedd Arfog? n e **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

e2 A ydych chi'n aelod o deulu rhywun sydd yn y Lluoedd Arfog? (er enghraifft: cymar neu blentyn) n e **Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

adran

2 cymorth ariannol arall

Bwrsariaethau a dyfarniadau

Os ydych yn **fyfyriwr israddedig** yn y flwyddyn academaidd hon byddwch chi'n gymwys i wneud cais am:

- fwrsariaeth gan yr Adran Iechyd neu'r GIG (ac eithrio'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol a delir gan Gyngor Gofal Cymru); neu
- Fwrsariaeth Cyfarwyddfa Iechyd Llywodraeth yr Alban (Lwfans Gofal Iechyd yr Alban); neu
- bwrsariaeth gofal iechyd gan yr Adran Iechyd, (Gogledd Iwerddon)?

Byddaf ☐ **Na fyddaf** ☐

Os ydych yn **fyfyriwr ôl-raddedig** yn y flwyddyn academaidd hon byddwch chi'n gymwys i wneud cais am:

- fwrsariaeth gan yr Adran Iechyd, GIG, Cyfarwyddiaeth Iechyd Llywodraeth yr Alban (Lwfans Gofal Iechyd yr Alban) neu fwrsariaeth gofal iechyd arall; neu
- fwrsariaeth gan Gyngor Ymchwil neu
- fwrsariaeth gan Gyngor Gofal Cymru i fyfyrwyr sy'n astudio cwrs gwaith cymdeithasol ôl-raddedig cymeradwy neu
- bwrsariaeth gan eich coleg neu brifysgol sy'n cynnwys cefnogaeth ychwanegol oherwydd eich anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol (peidiwch â chyfrif unrhyw daliad a gewch gan gronfa caledi eich prifysgol neu goleg)?

Byddaf ☐ **Na fyddaf** ☐

! Os ydych wedi ateb 'Byddaf' i unrhyw un o'r cwestiynau uchod, ni fyddwch yn gymwys i gael DSAs gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. **Peidiwch â pharhau gyda'r cais hwn**. Dylech gysylltu â darparwr eich bwrsariaeth am gyngor ar unrhyw gymorth ychwanegol y gallech fod yn gymwys i'w gael oherwydd anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol.

adran

3 preswylio

Dinasyddiaeth

a1 Ydych chi'n ddinesydd y DU? t

Ydw ☐ Nac ydw ☐ **Os 'Ydw' ewch i b1**

a2 Ydych chi'n ddinesydd yr UE? t

Ydw ☐ Nac ydw ☐

a3 Ydych chi'n blentyn i ddinesydd o'r Swistir? t

Ydw ☐ Nac ydw ☐ **os 'Nac ydw' ewch i a5**

a4 Fydd eich rhiant sydd yn ddinesydd Swisaidd yn byw yn y DU ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd? t n

Bydd ☐ Na fydd ☐ **os 'Bydd' ewch i b2**

Statws preswylio

a5 Ydych chi neu eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant(rhieni), llys riant; neu
- blentyn, mab neu ferch yng nghyfraith neu blentyn eich partner sifil

yn ddinesydd o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd Swisaidd sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU?

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐

Os 'Ydw/Ydy', rhowch fanylion isod o'r lle y cawsoch eich addysg cyn mynd i'r brifysgol. t n

os 'Nac ydw/Nac ydy' ewch i a6

Os ydych yn gweithio ar hyn o bryd, ydych chi am barhau i weithio yn ystod eich cyfnod astudio?

Os 'Ydw', rhowch fanylion. t n

Ydw ☐ Nac ydw ☐

ewch i b2

a6 Oes gennych chi 'statws preswylydd sefydlog' yn y DU? t n

Oes ☐ Nac oes ☐ **os 'Nac oes' ewch i a7**

Os 'Oes', rhowch y dyddiad panroddwyd y statws hwn i chi

DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ **ewch i b2**

a7 Ydych chi neu eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant(rhieni) neu lys riant

wedi derbyn 'statws ffoadur' gan Lywodraeth y DU? t n

Ydw/ydy ☐ Nac ydw/nac ydy ☐ **os 'Nac ydw/Nac ydy' ewch i a8**

Os 'Ydw/Ydy, ac os yn berthnasol, rhowch y canlynol:

Cyfeirnod y Swyddfa Gartref ☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Y dyddiad pan fydd y statws hwn yn dod i ben DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ **ewch i b2**

a8 Ydych chi neu eich:
- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant(rhieni) neu lys riant

wedi sicrhau 'caniatâd mynediad neu aros' yn y DU oherwydd bod cais am loches wedi methu? t n

Ydw/ydy ☐ **Nac ydw/nac ydy** ☐ os 'Nac ydw/Nac ydy' **ewch i b2**

Os 'Ydw/Ydy', ac os yn berthnasol, rhowch Gyfeirnod y Swyddfa Gartref ☐☐☐☐☐☐☐☐

Y dyddiad y bydd y statws hwn yn dod i ben DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐ **ewch i b2**

! **Os ydych wedi ateb 'Nac ydw' i bob un o'r cwestiynau yn yr adran hon nid ydych yn gymwys am gyllid myfyrwyr gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.**

Hanes preswylio

b1 Yn ystod y tair blynedd cyn dechrau blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs, **fuoch chi'n byw y tu allan i'r DU a'r Ynysoedd** ar unrhyw adeg? **Do** ☐ **Naddo** ☐

b2 Rhowch eich manylion preswylio am y tair blynedd cyn dechrau blwyddyn gyntaf academaidd eich cwrs. n

Cyfeiriad llawn			Pam oeddech chi yno?
	O	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	Hyd	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	O	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	Hyd	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	O	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	Hyd	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	O	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	
	Hyd	DYDD ☐☐ MIS ☐☐ BLWYDDYN ☐☐☐☐	

Os byddwch angen mwy o le i nodi'ch ateb, rhowch y manylion y gofynnwyd amdanynt ar ddarn o bapur ar wahân, a'i gynnwys gyda'r ffurflen hon.

b3 Ar unrhyw adeg ers 1 Medi 2014 oes:
- un o'ch rhieni, llys rieni, gwarchodwyr; neu
- eich gŵr, gwraig neu bartner

sifil wedi byw neu weithio tu allan i'r DU a'r Ynysoedd neu, yn achos dinesydd yr UE, AEE neu'r Swistir, y tu allan i'r AEE neu'r Swistir?

Oes ☐ **Nac oes** ☐

Os 'Oes', rhowch y manylion isod.

Cyfeiriad llawn	O DYDD MIS BLWYDDYN	Hyd DYDD MIS BLWYDDYN	Pam oeddent yn byw yno?

adran

4

am eich cwrs a'ch prifysgol neu goleg

Yn yr adran hon, rhowch fanylion eich dewis cyntaf o brifysgol neu goleg a'r cwrs.

Manylion y brifysgol neu goleg

a Enw a chyfeiriad y brifysgol neu goleg

Cod Post

Manylion y cwrs

b Enw'r cwrs n

Os ydych yn dilyn cwrs astudiaethau cyfunol neu fodiwlaidd, rhestrwch bob un o'r pynciau a astudir gennych

Y cymhwyster yr ydych yn disgwyl ei sicrhau (e.e. BSc Ffiseg)

Dyddiad cychwyn y cwrs MIS BLWYDDYN

Dyddiad gorffen y cwrs MIS BLWYDDYN

Hyd y cwrs (blynyddoedd) n

Blwyddyn y cwrs

- ☐ Sylfaen
- ☐ Blwyddyn gyntaf
- ☐ Ail flwyddyn
- ☐ Trydedd flwyddyn
- ☐ Pedwaredd flwyddyn

Arall (rhowch fanylion)

adran

4 parhad

am eich cwrs a'ch prifysgol neu goleg

Os yw'r cwrs wedi'i ryddfreinio i brifysgol/coleg arall, rhowch gyfeiriad y brifysgol neu goleg arall

Cod Post

adran

5

eich prifysgol neu goleg

Gofynnwch i'ch prifysgol neu goleg i lenwi'r adran hon.

Os nad ydych am ddweud wrth eich prifysgol neu goleg am eich anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, yna darllenwch nodiadau adran 5 am gyfarwyddiadau pellach ac yna ewch i adran 6. n

I'w lenwi gan brifysgol neu goleg y Myfyriwr.

Cod SLC neu UCAS y brifysgol neu goleg ☐☐☐☐

Myfyrwyr israddedig rhan-amser

Bydd dyddiad dechrau cwrs y myfyriwr ar neu ar ôl 1 Medi 2014
ticiwch os yn berthnasol ☐

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- Bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n gwneud cais am y cwrs a enwir yn adran 4 ac yn bwriadu astudio ar gyfradd o **25% o leiaf** yn y flwyddyn academaidd hon; a
- Bod cyfradd astudio'r myfyriwr yn cyfateb i ☐% o'r cwrs amser llawn cyfatebol.

Cychwynnodd y myfyriwr ei gwrs cyn 1 Medi 2014
ticiwch os yn berthnasol ☐

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n gwneud cais am y cwrs a enwir yn adran 4 ac yn bwriadu cwblhau'r cwrs ar gyfradd astudio ar gyfartaledd o 50% o leiaf o'r hyn sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cwrs, neu gwrs cyfatebol, dan drefniant amser llawn; a
- Bod cyfradd astudio'r myfyriwr yn ☐% o'r cwrs llawn-amser cyfatebol.

Enghraifft

Mae'r myfyriwr yn astudio cwrs rhan-amser dros gyfnod o chwe blynedd ond byddai'n astudio am dair blynedd pe byddai ef neu hi ar gwrs amser llawn cyfatebol. 50% yw'r gyfradd astudio.

Myfyrwyr israddedig amser llawn, (nad ydynt yn gwneud cais am gyllid arall) a myfyrwyr dysgu o bell israddedig amser llawn ☐ ticiwch os yn berthnasol

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n gwneud cais am y cwrs a enwir yn adran 4; a
- bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn bwriadu cwblhau'r cwrs dan drefniant amser llawn trwy gyfrwng dulliau dysgu o bell.

adran

5

parhad

eich prifysgol neu goleg

Myfyrwyr ôl-raddedig rhan-amser

Bydd dyddiad dechrau cwrs y myfyriwr ar neu ar ôl 1 Medi 2014 ☐ ticiwch os yn berthnasol

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n gwneud cais am gwrs ôl-raddedig rhan-amser na fydd yn cymryd mwy na dwywaith yr amser y byddai'n ei gymryd i gwblhau cwrs amser llawn.

Cychwynnodd y myfyriwr ei gwrs cyn 1 Medi 2014 ☐ ticiwch os yn berthnasol

Rwy'n cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n ymgeisio ar gyfer cwrs ôl-raddedig rhan-amser na fydd yn cymryd dim mwy na phedair gwaith cymaint o amser i'w gwblhau a chwrs amser llawn cyfatebol.

Pob myfyriwr ôl-raddedig ☐ ticiwch os yn berthnasol

Rwyf yn cadarnhau hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:

- bod y myfyriwr a enwir yn adran 1 yn astudio neu'n gwneud cais am y cwrs a enwir yn adran 4;
- bod gan y cwrs hwn gymhwyster mynediad fel arfer o radd gyntaf neu uwch; ac
- na fydd y myfyriwr yn derbyn dyfarniad gan ei sefydliad (heb gynnwys unrhyw daliad gan Gronfa Ariannol Wrth Gefn y sefydliad) i dalu'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cwrs y bydd yn rhaid iddo'i dalu oherwydd ei anabledd.

Eich enw llawn (mewn PRIFLYTHRENNAU)

Eich llofnod

Stamp y brifysgol neu goleg

Safle

Eich rhif ffôn (yn cynnwys cod ardal)

Eich cyfeiriad e-bost

Dyddiad DYDD MIS BLWYDDYN

adran

6

eich anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol

Gwybodaeth a thystiolaeth DSAs

! Rydych wedi'ch diffinio fel rhywun ag anabledd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 os oes gennych nam corfforol neu feddyliol, sydd yn cael effaith niweidiol sylweddol a thymor hir ar eich gallu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

a Rhowch fanylion llawn am natur eich anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Os oes angen mwy o le arnoch defnyddiwch y dudalen nodiadau ychwanegol ar gefn y ffurflen hon. t

b Ar ba ddyddiad yr aseswyd eich anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol ddiwethaf? n

DYDD MIS BLWYDDYN

c Ai hwn yw eich cais cyntaf am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs)? Ie ☐ Na ☐

Os 'Ie' ewch i **adran 7**

Os 'Na', rhowch y manylion canlynol ar gyfer pob cais blaenorol a wnaed gennych am arian DSAs.

Dyddiad y cais (DYDD / MIS / BLWYDDYN)	Awdurdod ariannu y cyflwynwyd y cais iddo t
/ /	
/ /	
/ /	
/ /	

Os na allwch ddarparu tystiolaeth o bob cais blaenorol am arian DSAs a wnaed gennych, rhowch fanylion llawn yr arian a gawsoch yn y blwch isod.

Efallai y byddwn yn cysylltu â'r awdurdodau ariannu perthnasol am wybodaeth bellach.

adran

7 eich caniatâd

Eich caniatâd i drefniadau DSAs

! Ticiwch y blychau isod os ydych yn rhoi eich caniatâd i'r trefniadau DSA canlynol.

☐ Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru, cynghorwr anabledd fy mhrifysgol neu goleg, a'm Haseswr Anghenion DSA gyfnewid gwybodaeth am fy nghais am DSAs pan fydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau fy mod yn cael yr help angenrheidiol.

☐ Cytunaf y gall cyflenwyr offer a chyflenwyr help anfeddygol Cyllid Myfyrwyr Cymru gyfnewid gwybodaeth am fy nghais am DSAs pan fydd angen am hynny, i wneud yn siŵr fy mod yn cael yr help fydd ei angen arnaf.

☐ Rwy'n cytuno y gall Cyllid Myfyrwyr Cymru dalu cyflenwyr offer a chymorth yn uniongyrchol.

adran

8 manylion eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu

Manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r DU

Pan fo modd byddwn yn talu cyflenwyr eich offer neu'ch gwasanaethau cymorth yn uniongyrchol. Fodd bynnag, cwblhewch yr adran isod fel ein bod yn gallu talu i chi os bydd angen i ni wneud hynny. Nid oes raid i chi ddarparu'r manylion hyn os ydych eisoes wedi eu rhoi i ni.

Rhaid i'r cyfrif fod yn eich enw chi ac mae'n rhaid ei fod yn gallu derbyn credydau uniongyrchol.

Cod didoli ☐☐ – ☐☐ – ☐☐

Rhif cyfrif ☐☐☐☐☐☐☐☐

Rhif rhôl y gymdeithas adeiladu (os yn berthnasol) ☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐☐

Datganiad

Cyn llofnodi a dychwelyd eich ffurflen gyflawn, dylech ddarllen y Datganiad Diogelu Data yn y nodiadau cysylltiedig. n

Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i'r holl gyllid sydd ar gael i fyfyrwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.

Cyn llofnodi a dychwelyd eich ffurflen gyflawn, dylech ddarllen yr amodau a thelerau penodol ynghylch benthyciadau, Grant Gofal Plant a Lwfansau Myfyrwyr Anabl. Os byddwch yn gwneud cais am unrhyw un o'r mathau hynny o gyllid ar unrhyw adeg yn y flwyddyn academaidd 2017/18, byddwch wedi'ch ymrwymo i'r amodau a thelerau cysylltiedig isod.

Os na fyddwch yn gwneud cais am fenthyciad, Grant Gofal Plant neu Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn y flwyddyn academaidd 2017/18 ni fydd yr amodau a thelerau cysylltiedig â'r math hwnnw o gyllid yn effeithio arnoch chi.

Efallai y bydd oedi gyda'ch cais am gymorth ariannol os na fyddwch wedi llofnodi a dyddio'r datganiad hwn.

Datganiad Cyffredinol

- Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennyf, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred yn wir a chyflawn. Os nad yw, deallaf ei bod yn bosibl na fyddaf yn derbyn cymorth ariannol, y gellid tynnu unrhyw gefnogaeth a gefais yn ôl a gellid fy erlyn. Gallai unrhyw wybodaeth a roddir a ganfyddir i fod yn anghywir gael ei gweld fel ymgais i gamarwain y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Mewn amgylchiadau o'r fath, gallai SLC adrodd am y mater wrth yr awdurdodau a/neu derfynu eich cymhwyster am gyllid myfyrwyr.
- Rwy'n cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth sy'n rhesymol i ofyn amdani er mwyn prosesu fy nghais, a chytunaf i roi gwybod ar unwaith, a'r manylion cysylltiedig, am unrhyw newid yn fy amgylchiadau allai effeithio ar fy hawl i gymorth ariannol. Deallaf os na wnaf hyn, efallai na fyddaf yn derbyn unrhyw daliad pellach, ac o bosibl yn gorfod ad-dalu'r cymorth ariannol yr wyf eisoes wedi'i dderbyn.
- Cytunaf os digwydd i mi dderbyn gordaliad mewn cymorth ariannol, y bydd dyletswydd arnaf i ad-dalu hwn yn llawn, a chytunaf y gellid ad-dalu gordaliad o'r fath drwy ei dynnu o unrhyw hawl i gymorth ariannol yn y dyfodol.
- Deallaf os byddaf wedi rhoi manylion fy mhasbort y DU, bydd yr SLC yn gwirio'r manylion hynny gyda Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi.

Cytundeb Benthyciad

a Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y canllaw amodau a thelerau ar gael ar-lein yn: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**

b Rwy'n cydnabod a chytuno y bydd unrhyw fenthyciad(au) a wneir i mi gan Weinidogion Cymru, 'y benthyciwr' (sy'n cynnwys unrhyw un yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru yn unol ag adran 23(4) y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth ddilynol, 'y Ddeddf') ar yr amodau a osodir yn y datganiadau hyn, ac mewn Rheoliadau a wneir dan adran 22 o'r Ddeddf fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

c Rwy'n ymrwymo i ad-dalu'r benthyciwr unrhyw fenthyciad(au) a wnaed i mi, ynghyd â phob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol.

d Rwy'n cydnabod a chytuno petawn i: (i) wedi cyrraedd yr oedran 18 oed; a (ii) wedi gwneud un neu fwy o gytundebau am fenthyciad dan adran 22 y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (a deddfwriaeth eilaidd berthnasol) cyn i mi gyrraedd 18 oed, wrth lofnodi'r datganiad hwn rwy'n cytuno i gadarnhau pob benthyciad myfyriwr. Deallaf fod cadarnhad o unrhyw gytundeb am fenthyciad a wnaed â mi cyn i mi gyrraedd 18 oed yn rhag-amod statudol o'm cymhwyster ar gyfer derbyn cymorth fel myfyriwr ar ôl cyrraedd 18 oed.

e Cytunaf y bydd unrhyw fenthyciad(au) a wnaed i mi fel canlyniad i'r benthyciwr dderbyn fy nghais, yn gytundeb(au) rhyngof fi a'r benthyciwr sy'n f'ymrwymo i o'r taliad ymlaen llaw cyntaf i mi, a bydd yr ad-daliad o unrhyw fenthyciad(au) o'r fath a phob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn ddyledus gennyf fi i'r benthyciwr fel dyled.

f Rwy'n cytuno y byddaf yn gorfod ad-dalu fy menthyciad(au), ynghyd â phob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n gymwys, i'r cyfeiriad a hysbysir i mi yn ysgrifenedig a bydd unrhyw wasanaethau cysylltiedig â'm benthyciad(au) ar gael yn y cyfeiriad hwnnw neu gyfeiriad(au) eraill yn ôl penderfyniad y benthyciwr o bryd i'w gilydd a bod y gwasanaeth o ddarparu benthyciad ar gael ym mhrif gyfeiriad y benthyciwr.

g Rwy'n cytuno y bydd unrhyw weithredu ar gyfer ad-dalu a/neu ynglŷn â neu mewn cysylltiad â'm benthyciad(au) a/neu bob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael ei ddwyn o flaen y llysoedd sifil cyffredin ac yn cael ei lywodraethu gan reolau cyffredin gweithdrefn sifil.

h Rwy'n cytuno y bydd fy nghais am fenthyciad, y benthyciad a'r cytundeb rhyngof fi a'r benthyciwr wedi ei lywodraethu gan gyfraith lleoliad fy nghyfeiriad cartref fel y nodir ef ar y ffurflen hon (neu, os bydd fy nghyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig, cyfraith Cymru a Lloegr).

i Rwy'n cytuno'n ddiamod y bydd gan y llysoedd yn y rhan o'r Deyrnas Unedig y lleolir fy nghyfeiriad cartref fel y nodir ef ar y ffurflen hon (neu lysoedd Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon os yw fy nghyfeiriad y tu allan i'r Deyrnas Unedig) awdurdod digyfyngiad i glywed unrhyw weithredu neu achos yn codi ohono neu mewn cysylltiad â'r benthyciad a'r cytundeb rhyngof fi a'r benthyciwr, ac rwy'n ymostwng yn llwyr i awdurdod y llysoedd hynny ac yn ildio unrhyw wrthwynebiad i awdurdod y llysoedd hynny, ar yr amod na fydd hyn yn cyfyngu ar hawliau'r benthyciwr i ddwyn achos yn fy erbyn mewn unrhyw lys arall sydd ag awdurdod cymwys.

j Rwy'n cytuno y byddaf o'r dyddiad y cyflwynaf y ffurflen hon hyd at y dyddiad pan fydd fy menthyciad(au) ynghyd â phob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol, yn cael eu had-dalu'n llawn, yn hysbysu'r benthyciwr o unrhyw newidiadau yn y manylion personol (yn cynnwys Rhif Yswiriant gwladol) a manylion cyswllt a roddwyd gennyf fel sy'n ofynnol yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff b.

k Os byddaf yn gadael y Deyrnas Unedig i fyw tu allan i'r Deyrnas Unedig, neu os am unrhyw reswm arall fy mod i tu allan i system treth y DU, rwy'n ymrwymo i hysbysu'r benthyciwr yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff b ac ymrwymaf i roi fy manylion cyswllt newydd a dilynol i'r benthyciwr nes bydd fy menthyciad, ynghyd â phob un ac unrhyw log, cosbau a thaliadau sy'n berthnasol wedi eu had-dalu'n llawn.

l Cytunaf i weithredu'r cyfan o'r hyn sy'n ofynnol gan y benthyciwr a darparu'r holl wybodaeth fydd ei hangen ar y benthyciwr i sicrhau ad-daliad, yn unol â'r Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff b.

m Os byddaf yn torri unrhyw un o amodau gwneud y benthyciad(au) cytunaf y bydd hi'n orfodol i mi dalu unrhyw daliadau a chosbau sy'n berthnasol dan y Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a'r Rheoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd neu ddeddfwriaeth ddilynol a/neu Reoliadau.

n Deallaf y bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gwirio fy Rhif Yswiriant gwladol a manylion personol, gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Os nad wyf yn gwybod beth yw fy Rhif Yswiriant gwladol, neu os na ellir gwirio'r rhif a roddwyd gennyf, bydd DWP yn olrhain a rhoi fy rhif i'r benthyciwr.

o Os ydw i wedi torri amodau'r cytundeb hwn, rwy'n cytuno y gall y benthyciwr rannu gwybodaeth amdanaf i a fy nghyfrif gydag unrhyw unigolyn, yn cynnwys y llywodraeth neu asiantaeth llywodraeth gwlad arall, allai fy nghynorthwyo i sefydlu fy lleoliad ac/neu i gymryd camau i adfer unrhyw swm sy'n weddill o'r benthyciad.

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

- Rwy'n deall y bydd rhaid defnyddio unrhyw offer a dderbyniaf trwy Lwfans i Fyfyriwr Anabl ar gyfer fy nghwrs astudiaeth ac mai fi sy'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau atgyweirio.
- Deallaf os na fyddaf yn darparu manylion am unrhyw newid yn fy amgylchiadau allai effeithio ar fy hawl, y bydd yn rhaid i mi o bosibl ddychwelyd unrhyw offer rwyf eisoes wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn drwy DSA.

Grant Gofal Plant

- Deallaf os na fyddaf yn defnyddio fy ngrant gofal plant, neu os byddaf yn newid i ddarparwr gofal plant nad yw wedi ei gofrestru neu ei gymeradwyo, y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw ordaliad.
- Deallaf os na fyddaf yn darparu tystiolaeth o'r costau gofal plant o fewn y terfynau amser a osodwyd, gallwn golli fy hawl iddo. Hefyd os yw fy nhaliadau i'm darparwr gofal plant yn wahanol i'r amcangyfrifon a ddarparaf, deallaf y bydd taliadau pellach yn cynyddu neu ostwng fel bo'n briodol, neu os na fydd rhagor o daliadau Grant Gofal Plant yn ddyledus i mi, gallwn orfod ad-dalu unrhyw wahaniaeth.
- Rwy'n cadarnhau nad ydw i na fy ngŵ gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw wedi dewis derbyn cefnogaeth ar gyfer gofal plant o elfen gofal plant: (i) y Credyd Treth Gwaith; (ii), y Credyd Cynhwysol; (iii) Gofal Plant Di-dreth; ac/neu (iv) Lwfans Gofal Plant y GIG; ac rwy'n cytuno i ddweud wrth yr SLC ar unwaith os bydd fy ngŵ gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cydfyw yn derbyn y gefnogaeth hon. Rwy'n deall bod SLC yn cadw' hawl i rannu fy nata personol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ("HMRC") i wirio a ydw i'n derbyn cefnogaeth gofal plant gan HMRC.

Cyfeirnod Cwsmer

Eich enw llawn
(mewn PRIF LYTHRENNAU)

Eich llofnod (mewn inc) **X**

Dyddiad heddiw DYDD MIS BLWYDDYN

Ni fydd rhoi eich caniatâd i rannu data am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau yn effeithio ar eich hawl i gael unrhyw gymorth ariannol arall sydd ar gael.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael bwrsariaeth neu ysgoloriaeth na fydd angen ei had-dalu. Er mwyn i'ch prifysgol neu goleg bennu a thalu unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth y gallech fod yn gymwys i'wchael, byddwn yn rhannu rhai o'ch manylion personol ac ariannol, a manylion eich cwrs gyda nhw. Ni fydd y rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau yn talu bwrsariaethau ac ysgoloriaethau os na fyddwch yn rhoi eich caniatâd. n

Os **nad** ydych yn dymuno rhannu eich manylion i'r diben hwn, ticiwch y blwch hwn.

Rhestr gyfeirio

Cyn dychwelyd y ffurflen hon, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud y canlynol:

- ☐ Llofnodi a dyddio'r datganiad.
- ☐ Amgáu pob un o'r eitemau tystiolaeth y gofynnir amdanynt yn y nodiadau DSA1. Bydd unrhyw dystiolaeth wreiddiol a anfonwch yn cael ei ddychwelyd i chi cyn gynted ag y bo modd.
- ☐ Os yn berthnasol, bod eich prifysgol neu goleg wedi llenwi adran 5.

Cofiwch dalu'r tâl postio cywir.

Unwaith y bydd eich ffurflen wedi ei chwblhau a'r datganiad wedi ei lofnodi a'i ddyddio, dylech ei dychwelyd at: **Cyllid Myfyrwyr Cymru**
Blwch Post 211
Cyffordd Llandudno
LL30 9FU

Nodiadau ychwanegol

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol nodwch yn glir pa adran a pha rif cwestiwn y bydd yr wybodaeth yn cyfeirio atynt.

Nodiadau ychwanegol

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol nodwch yn glir pa adran a pha rif cwestiwn y bydd yr wybodaeth yn cyfeirio atynt.

Nodiadau ychwanegol

Os ydych yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol nodwch yn glir pa adran a pha rif cwestiwn y bydd yr wybodaeth yn cyfeirio atynt.